# Iechyd a Diogelwch

## Adroddiad Blynyddol

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

2017/2018

Hysbysiad: Mae data 'Damweiniau Anafiad' y Sector Addysg Uwch wedi'i ddiweddaru ar 17 Ebrill 2023 i gywiro anghysondeb.

**Mynegai** | **Tudalen**



| | | |
|---|---|---|
| | Y Dangosyddion Perfformiad: Tudalen Gryno | 2 |
| 1. | Polisïau a Dogfennau Newydd | 3 |
| 2. | Archwiliadau, Adolygiadau a Dadansoddiad | 4 |
| 3. | Y Camau Gorfodi a'r Ymweliadau Arolygu Statudol | 7 |
| 4. | Hyfforddiant ym Maes Iechyd a Diogelwch | 7 |
| 5. | Damweiniau a Digwyddiadau | 9 |
| 6. | Absenoldeb Salwch ymysg y Staff | 13 |
| 7. | Larymau Tân yn Canu | 16 |
| 8. | Hawliadau Sifil (Sy'n Ymwneud ag Iechyd a Diolgelwch) | 17 |
| 9. | Ystadegau'r Wefan | 17 |

Mae Adroddiad 2017/18 yn adroddiad cyfunol ynglŷn â sawl agwedd ar iechyd a diogelwch. Rhoddir crynodeb pellach o'r Adroddiad hwn i Gyngor y Brifysgol.

Ar hyn o bryd, mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n ymwneud yn benodol ag Iechyd a Diogelwch wedi'u cyfyngu i dri mesur, sef gwelliant yn y Ganran Gydymffurfiaeth â'r safon genedlaethol sy'n ymwneud â rheoli iechyd a diogelwch, Cyrsiau Cynefino Iechyd a Diogelwch i staff newydd a Defnyddio Cyfrifiaduron yn Ddiogel (DSE). O 2018/19 ymlaen, bydd dangosyddion perfformiad Iechyd a Diogelwch ychwanegol.

## Y DANGOSYDDION PERFFORMIAD: TUDALEN GRYNO

### CYNEFINO AR GYFER STAFF NEWYDD

| DANGOSIAD PERFFORMIAD |  | |
|---|---|---|
| | STATWS/ GWERTH | 23% ISLAW'R TARGED |

Gweler yr Adran ar Dudalen 7

### CWBLHAU HYFFORDDIANT AC ASESIAD ASESU SGRINIAU ARDDANGOS

| DANGOSYDD PERFFORMIAD |  | |
|---|---|---|
| | STATWS/ GWERTH | 2% ISLAW'R TARGED |


Gweler yr Adran ar Dudalen 8

### CYDYMFFURFIO Â SAFONAU ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH UCEA

| | |
|---|---|
| CYNGOR Y BRIFYSGOL | **Cydymffurfiaeth 94%** (16/17) |
| PWYLLGOR GWEITHREDU'R BRIFYSGOL | **Cydymffurfiaeth 83%** (25/30) |


Gweler yr Adran ar Dudalen 4

### DAMWEINIAU AC ANAFIADAU I'R STAFF (FESUL 1000)





Gweler yr Adran ar Dudalen 9

### Cyfraddau Absenoldeb Salwch (Diwrnodau/CALI)




Gweler yr Adran ar Dudalen 13

### Achosion Absenoldeb (dros 20 diwrnod gwaith) a Ardystiwyd yn Feddygol (amser i ffwrdd wedi'i addasu ar gyfer CALI)




Gweler yr Adran ar Dudalen 15

## 1. POLISÏAU A DOGFENNAU NEWYDD

Crynodeb o'r dogfennau sefydliadol allweddol newydd a diwygiedig a gyflwynwyd neu a addaswyd yn ystod y flwyddyn.

### • Y POLISÏAU NEWYDD

Cymeradwyodd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch y Polisïau canlynol ar 23ain Mai 2018.

**POLISI MEYSYDD ELECTROMAGNETIG (NEWYDD)**

Yn unol â Rheoliadau Rheoli Meysydd Electromagnetig yn y Gwaith, mae'r Polisi'n nodi'r gofynion a osodir ar y Brifysgol.

Mae ffocws penodol ar yr effaith ar *"Rai sydd mewn Risg Arbennig"* o effeithiau Meysydd Electromagnetig. Lluniwyd nifer o Daflenni Gwybodaeth a Thempledi Asesu Risg yn gefn i'r Polisi newydd.

**DEFNYDDIO YMBELYDREDD OPTEGOL ARTIFFISIAL YN DDIOGEL**

Yn unol â Rheoliadau Rheoli Ymbelydredd Optegol Artiffisial yn y Gwaith, mae'r Polisi'n nodi'r gofynion sydd ar y Brifysgol ynghylch defnyddio ffynonellau golau ymbelydredd optegol artiffisial a all fod yn beryglus yn ddiogel. Nid yw'r Safon Bolisi'n cynnwys 'laserau' pwerus. Mae'r rheiny'n cael eu hystyried mewn dogfen ar wahân oherwydd y risgiau a'r rheolyddion neilltuol sy'n gysylltiedig â hwy.

Mae nifer o Daflenni Gwybodaeth yn gefn i'r Polisi.

### • Y POLISÏAU A DDIDDYMWYD

Diddymodd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch y Polisïau canlynol ar 23ain Mai 2018.

**PLANT AR DIR Y BRIFYSGOL**

Doedd dim angen Safon Bolisi manwl neilltuol oherwydd bod Polisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol yn awr yn cynnwys adran benodol ynglŷn â chyfrifoldeb dros ddiogelu iechyd a diogelwch plant sy'n ymweld â'r Brifysgol, neu sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Brifysgol (Adrannau 14.1, 14.3 a 14.4).

Cymerwyd gwybodaeth berthnasol o'r hen Nodyn Polisi: OHSU P15 ac mae wedi'i hymgorffori yn yr wybodaeth a'r canllawiau ategol sydd ar y we.

### • DOGFENNAU IECHYD A DIOGELWCH DIWYGIEDIG Y COLEGAU / Y GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

Yn sgil y newidiadau sefydliadol, mae angen adolygu a diweddaru dogfennau a threfniadau iechyd a diogelwch allweddol y mwyafrif o'r Gwasanaethau Proffesiynol a'r holl Golegau. Bu'r newidiadau'n gyfle i ddatblygu Templed Polisi Iechyd a Diogelwch symlach i'r Gwasanaethau Proffesiynol / Colegau sy'n adlewyrchu fformat Polisi Iechyd a Diogelwch cyffredinol y Brifysgol ac sy'n diffinio'r rolau a'r cyfrifoldebau allweddol yn glir. Yn gefn i'r Polisïau Iechyd a Diogelwch yma mae Asesiad Risg Cyffredinol a dogfennau eraill, fel bo angen, i fynd i'r afael â risgiau penodol a sylweddol sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth Proffesiynol / Coleg neilltuol.

Fel man cychwyn, cyflwynwyd y Polisi Templed Iechyd a Diogelwch i Goleg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianneg (CoESE), yn sgil uno Coleg y Gwyddorau Naturiol (CNS) a Choleg y Gwyddorau Ffisegol a Chymhwysol (COPAS) gynt. Yn sgil hynny lluniwyd Polisi Iechyd a Diogelwch CoESE, Asesiad Risg Cyffredinol CoESE a Llawlyfr Iechyd a Diogelwch Staff a Myfyrwyr CoESE.

Bellach caiff Templed y Polisi Iechyd a Diogelwch ei gyflwyno i Golegau a Gwasanaethau Proffesiynol eraill.

### • RHEOLIADAU YMBELYDREDD IONEIDDIO (IRR17)

Oherwydd newidiadau i'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (ers y 1af o Ionawr 2018) mae angen adolygu holl Reolau Lleol y Labordai Ymbelydredd a'r Polisïau a'r gweithdrefnau cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys gwaith gyda ffynonellau agored a defnyddio offer pelydr-X.

Roedd y newidiadau i'r IRR17 yn cynnwys:

- Mae'n rhaid i'r Brifysgol 'Gofrestru' gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch oherwydd bod ganddi ffynonellau agored, ei bod yn defnyddio pelydrau-X ac y bu ganddi un adeilad yn hanesyddol lle'r oedd y lefelau radon uwchlaw'r Lefel Weithredol sef 300 Bq $m^{-3}$.

- Lleihad sylweddol yn y dos mwyaf a ganiateir i'r llygad.
- Diddymu terfyn dos penodol menywod beichiog.

Yn ogystal, prynwyd dadansoddwyr XRF (Fflwroleuedd pelydr-X) cludadwy ac o'r herwydd roedd rhai creu Reolau Lleol, Rheolyddion Gweithredu ac asesiadau risg ychwanegol.

- **PARC GWYDDONIAETH MENAI**

Agorodd Parc Gwyddoniaeth Menai Cyf (M-SParc) fis Mawrth 2018. Is-gwmni sy'n eiddo i Brifysgol Bangor yw M-SParc ac mae'n gweithredu hyd braich iddi, ac M-SParc yw'r 'Cyflogwr' a'r 'Person Cyfrifol' o ran rheoli iechyd a diogelwch.

Mae'r Tîm Iechyd a Diogelwch wedi bod yn gweithio'n agos gydag M-SParc trwy gydol y Project, i sicrhau bod trefniadau iechyd a diogelwch addas ar waith ar gyfer eu Tenantiaid amrywiol, sy'n cynnwys swyddfeydd, gweithdai mecanyddol a gwaith mewn labordai gyda chemegau a chyfryngau biolegol.

## 2. ARCHWILIADAU, ADOLYGIADAU A DADANSODDIAD

Crynodeb o'r dangosyddion perfformiad a'r targedau allweddol ar gyfer agweddau a risgiau sefydliadol a pherfformiad yr adrannau.

- **ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH**

Mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu "Arweinyddiaeth a Rheolaeth Iechyd a Diogelwch mewn Sefydliadau Addysg Uwch" yr UCEA[1] ac USHA[2] a bellach dyma sail ein Polisi Iechyd a Diogelwch ni.

Mae'r Grŵp Tasg Iechyd a Diogelwch yn gwneud ymarfer pen bwrdd er mwyn ystyried a chloriannu perfformiad yn unol â phob un o feini prawf perfformiad y ddogfen.

| Cydymffurfio â'r Safonau Rheoli Cenedlaethol | |
|---|---|
| CYNGOR Y BRIFYSGOL | Cydymffurfiaeth 94% (16/17) |
| PWYLLGOR GWEITHREDU'R BRIFYSGOL | Cydymffurfiaeth 83% (25/30) |

[1] Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a'r Colegau

Bydd y dangosydd perfformiad hwn yn cael ei gryfhau dros y ddwy flynedd nesaf i gynnwys y Colegau a'r Gwasanaethau Proffesiynol, ynghyd â chymorth ymgynghorol o ran Iechyd a Diogelwch, a chyflwyno targedau ar gyfer gwelliant.

- **AR LEFEL Y BRIFYSGOL: DANGOSYDDION RHEOLI RISG**

**Mae'r perfformiad cyffredinol o ran y dangosyddion risg allweddol yn dangos gwelliant cyson.** Mae'r peryglon a'r risgiau canlynol yn berthnasol i'r Brifysgol gyfan ac fe gawsant eu hasesu'n ansoddol a dylid eu hystyried yn arwydd o berfformiad.

| PERYGLON / RISG / THEMA | Y Polisi/ Y Dogfennau | Profiad o Risg | Y Prif Nodiadau: Medi 2018 |
|---|---|---|---|
| **Asbestos** | O dan adolygiad ar hyn o bryd | | |
| **Rheoli Contractwyr** | A | M | Angen adolygu a diwygio |
| **COSHH - Cyfryngau Biolegol (HG2,3 a GM2)** | G | L | Mae rheolaeth dda yn amlwg. Mae gweithgarwch yn y maes ar gynnydd |
| **COSHH - Cemegol mewn labordai** | G | L/M | Mae angen mwy o hyfforddiant ar COSHH |
| **Diogelwch Trydanol - Gosodwaith** | G | L | Profi ac Arolygu bob 5 mlynedd |
| **Diogelwch Trydanol - Offer Symudol** | G | M/L | Lefelau cydymffurfiaeth yn gwella |
| **Gwaith Maes (Myfyrwyr a Staff)** | G | L/M | Angen adolygu ymchwil cymdeithasol / pobl |
| **Diogelwch Tân (Risg i Fywyd)** | G | M/L | Mae angen adolygu rheolyddion a chymhwysedd |
| **Diogelwch Nwy** | G | L | Ardystio a Chontract Gwasanaeth Landlordiaid ar waith |
| **Laser ac Uwch Fioled (UV) - ymbelydredd anïoneiddiol** | A | L | Angen adolygu'r Polisi a'r trefniadau |
| **Cyhyrysgerbydol (codi a chario)** | G | M/L | Angen adolygu'r gweithrediad |
| **Gweithio a theithio dramor** (gan gynnwys Lleoliadau Myfyrwyr) | G | L/M | Mae dal angen cysylltu prynu siwrneiau ag yswiriant/ asesiadau risg |

[2] Cymdeithas Diogelwch a Iechyd y Prifysgolion

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rheoli Cerddwyr a Thrafnidiaeth** | A | M | Mae angen adolygu a gwneud gwelliannau |
| **Ymbelydredd - Radon** | G | L | Rheolyddion ac Asesiadau Risg ar waith |
| **Ymbelydredd - Ffynonellau Agored a Seliedig** | G | L | System dda ar waith Archwiliad Allanol |
| **Ymbelydredd – Pelydr-X (risg i bobl)** | G | L | Systemau da yn amlwg. Archwiliad Allanol |
| **Llithro, Baglu a Chwympo (allanol)** | P | M/H | Does dim trefn arolygu ffurfiol. Risg uchel o ddwyn achos **sifil** |
| **Gweithgareddau dan arweiniad Undeb y Myfyrwyr** | G | L | Mae lefel dda o reolaeth yn dal i fod yn amlwg. Archwiliwyd 2018 |
| **Diogelwch y Cerbydau** | G | M | Mae diffygion o hyd o ran cadw cofnodion |
| **Diogelwch y Dŵr (Rheoli Clefyd y Lleng Filwyr)** | A | L/M | Mae angen diwygio Polisi a Gweithdrefn y Coleg/Adran. Mae angen diweddaru Polisi'r Brifysgol |

| | | |
|---|---|---|
| **ESBONIAD** | **G:** Mae gweithdrefnau da | **L:** Perygl isel o risg |
| | **A:** Gweithdrefnau gweddol | **M:** Perygl canolig o risg |
| | **P:** Gweithdrefnau cyfyngedig / ddim yn eglur nac yn addas | **H:** Perygl uwch o risg |

***Nodyn 1**: Mae'r uchod yn ddangosyddion a gymerwyd o'r Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, sy'n werthusiad ansoddol parhaus o Feysydd Perygl a Risg c.40 Uchaf y Brifysgol.*

***Nodyn 2:** Mae'r risg o "lithro, baglu a syrthio" yn ymwneud yn bennaf â'r ffaith bod y diffyg presennol o arolygiadau yn ffactor yn erbyn gallu'r Brifysgol i amddiffyn hawliad sifil yn llwyddiannus.*

- **TREFNIADAU RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH COLEG / ADRAN**

Yn ystod 2017/18 parhaodd Iechyd a Diogelwch â'i rhaglen o archwiliadau rheoli iechyd a diogelwch, gan ddefnyddio safonau a osodwyd gan Ganllawiau Arweinyddiaeth a Rheolaeth Iechyd a Diogelwch mewn Sefydliadau Addysg Uwch yr *USHA/UCEA* i feincnodi trefniadau a meincnodau cyffredinol rheoli iechyd a diogelwch o bolisïau a chanllawiau mewnol y Brifysgol ar gyfer elfennau 'Thematig' yr archwiliad.

- **UNDEB Y MYFYRWYR**

| **DANGOSIAD PERFFORMIAD** |  |
|---|---|

Roedd trefniadau'r Undeb ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch o safon ardderchog, ac fe gafodd sgōr gyffredinol o 96% o'r "Arfer Gorau".

Perfformiad Rheolaeth Iechyd a Diogelwch

| | Sylfaenol | Arfer Da | Arfer Gorau |
|---|---|---|---|
| **CYNLLUNIO** | 100% | 100% | 75% |
| **GWNEUD** | 100% | 100% | 100% |
| **GWIRIO** | N/A | 100% | 100% |
| **GWEITHREDU** | N/A | 100% | N/A |

Mae'r Undeb yn gweithio'n agos gydag Iechyd a Diogelwch. Drwy gydol yr adroddiad canmolwyd ymrwymiad ac arweinyddiaeth y staff ar bob lefel yn yr Undeb a'u hymdrechion cyson i wella'r systemau a'r prosesau'n barhaus.

Dim ond un Cam Gweithredu a gafodd ei nodi'n neilltuol, ac fe gafodd nifer o argymhellion eu gwneud hefyd i alluogi'r Undeb i wella rhagor ar ei systemau.

**Risgiau Thematig:**

Yn yr archwiliad, yn ogystal â'r trefniadau rheoli cyffredinol, ystyriwyd detholiad o risgiau thematig. Ar gyfer Undeb y Myfyrwyr roedd y rhain fel a ganlyn:

Diogelwch Trelars Cerbydau

| Sylfaenol | Arfer Da | Arfer Gorau |
|---|---|---|
| 100% | 100% | 100% |


Diogelwch Personol y Myfyrwyr yn y Cyfleoedd i Fyfyrwyr

| Sylfaenol | Arfer Da | Arfer Gorau |
|---|---|---|
| 100% | 100% | 100% |

Defnyddio Ystolion ac Ystolion Bach

| Sylfaenol | Arfer Da | Arfer Gorau |
|---|---|---|
| 100% | 100% | 100% |

## • NEUADDAU PRESWYL

| DANGOSIAD PERFFORMIAD |  |
|---|---|

Roedd trefniadau'r Undeb ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch o safon dda, ac fe gafodd sgōr gyffredinol o 96% o'r "Arfer Da".

Perfformiad Rheolaeth Iechyd a Diogelwch

| | Sylfaenol | Arfer Da | Arfer Gorau |
|---|---|---|---|
| CYNLLUNIO | 100% | 89% | 67% |
| GWNEUD | 100% | 100% | 100% |
| GWIRIO | N/A | 80% | 100% |
| GWEITHREDU | N/A | 100% | N/A |

Ymhob Adran, roedd yn amlwg bod trefniadau iechyd a diogelwch cadarn ar waith a'u bod yn cael eu cynnal a bod ymdrechion teg i ddysgu a gwella'r trefniadau, o flwyddyn i flwyddyn.

Roedd canmoliaeth benodol i'r Tîm Gweithrediadau, sy'n gyfrifol am gyflawni nifer o swyddogaethau i sicrhau bod safonau iechyd a diogelwch da'n cael eu cyflawni a'u cynnal a'r Tîm Wardeiniaid am eu cefnogaeth ragorol i'r myfyrwyr yn ystod eu hamser yn y Neuaddau.

Nodwyd nifer fechan o gamau gweithredu, ynghyd ag argymhellion i wella'r rheolyddion cyfredol.

Risgiau Thematig:
Yn ogystal â'r trefniadau rheoli cyffredinol, ystyriodd yr archwiliad ddetholiad o risgiau thematig. Ar gyfer y Neuaddau Preswyl, roedd y rheiny fel a ganlyn:

Diogelwch Personol y Staff

| Sylfaenol | Arfer Da | Arfer Gorau |
|---|---|---|
| 100% | 100% | 100% |

Y Ddarpariaeth ar gyfer Myfyrwyr Anabl

| Sylfaenol | Arfer Da | Arfer Gorau |
|---|---|---|
| 100% | 100% | 100% |

Darparwyr y Neuaddau Preswyl

| Sylfaenol | Arfer Da | Arfer Gorau |
|---|---|---|
| 100% | 100% | 80% |

## • DILYNIANT: Archwiliadau'r Adrannau 2016/17

Aeth Iechyd a Diogelwch ati yn sgil archwiliadau 16/17 i gadarnhau bod y camau gweithredu a nodwyd yn ystod y broses archwilio wedi cael sylw / wedi eu hunioni. Mae cofnodion yn cael eu cadw o hynny:

- Y Llyfrgelloedd a'r Archifdy
- Chwaraeon a Hamdden
- Y Ganolfan Addysg Ryngwladol.

## • ADOLYGU'R PERYGLON BIOLEGOL

| DANGOSIAD PERFFORMIAD |  |
|---|---|

Cynhaliwyd arolygiad blynyddol o'r cyfleusterau HG2 [3]fis Ionawr 2018. Roedd y canfyddiadau'n gadarnhaol ac roedd yn amlwg fod gan yr holl staff a'r myfyrwyr sy'n gweithio yn y meysydd dan sylw ddealltwriaeth dda o'r risgiau a'r gofynion rheoli cysylltiedig.

## • ADOLYGIAD RADON

| DANGOSIAD PERFFORMIAD |  |
|---|---|

Ar ôl cyflwyno Rheoliadau Diwygiedig Ymbelydredd Ioneiddio (IRR 2017) a ddaeth i rym ar 1af Ionawr 2018 bu gostyngiad yn lefel weithredol radon yn y gweithle o 400 Bq $m^{-3}$ (y senario 'gwaethaf') i 300 Bq $m^{-3}$ (y cyfartaledd dros flwyddyn).

Yna, adolygwyd yr holl ganlyniadau radon blaenorol ac fe gymerwyd mesuriadau ychwanegol. Cadarnhawyd bod y lefelau radon o fewn lefel weithredu newydd radon y gweithle.

## • AROLYGIADAU A PHROFION STATUDOL

Aed ati i gyflawni newid mawr yn ystod y flwyddyn i hwyluso newid contractwr arbenigol y Brifysgol ar

[3] "Grŵp Peryglon" Biolegol lefel 2

gyfer yr arolygiad statudol a phrofi cyfarpar pwysau a chodi. Ar gyfer gwneud hynny defnyddiwyd gwybodaeth a phrofiad cydweithwyr technegol o'r Colegau, PACS, Iechyd a Diogelwch a Chyllid i gyflwyno system gwbl newydd ar gyfer sicrhau bod offer diogelwch allweddol yn derbyn yr arolygiadau a'r profion statudol angenrheidiol.

Mae oddeutu **1,100 o eitemau o offer** sydd angen 'arolygiad' statudol naill ai bob 6 mis neu 12 mis. Mae'r potensial sydd o ran cynhyrchu ac adrodd ynghylch gwybodaeth am berfformiad sy'n ymwneud â "chanran cydymffurfiaeth" o dan ystyriaeth ar hyn o bryd.

## 3. Y CAMAU GORFODI A'R YMWELIADAU AROLYGU STATUDOL

Ni chymerwyd dim camau gorfodi yn erbyn y Brifysgol yn 2017/18.

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)
Ymwelodd Arolygydd Microbiolegol a Biotechnoleg Arbenigol yr HSE (sy'n gweithredu ar ran Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA)) ar 27ain Chwefror 2018 i arolygu'r meysydd lle mae gwaith gydag Organebau a Addaswyd yn Enetig yn digwydd. Bu'r ymweliad yn llwyddiant, ac ni chodwyd unrhyw bryderon o bwys.

Nododd yr Arolygydd oed a chyflwr yr Ystafell Tyfu Planhigion ac fe'i hysbyswyd y câi'r cyfleusterau presennol eu gwagio'n fuan ac y deuai cyfleusterau mwy modern yn eu lle.

Cyfoeth Naturiol Cymru a Gwrthderfysgaeth Cymru
Ymwelodd arolygwr Cyfoeth Naturiol Cymru fis Rhagfyr 2017 i gadarnhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â defnyddio, storio, diogelwch a gwaredu deunyddiau ymbelydrol. Cadarnhaodd yr arolygiad fod trefniadau da ar waith ac fe gafodd sgôr o '0' (dim camau pellach).

## 4. HYFFORDDIANT YM MAES IECHYD A DIOGELWCH

Mae'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch yn darparu, yn cydlynu neu'n cefnogi nifer o gyrsiau hyfforddi trwy gydol y flwyddyn. Darperir cyrsiau ychwanegol yn lleol hefyd ond **nid yw'r rheiny'n cael eu cofnodi** ar y gronfa ddata hyfforddiant ganolog.

Yn hanesyddol, bu Codi a Chario'n gwrs poblogaidd ond mae'r Adran yn ei chael hi'n anodd ei gynnal yn fewnol. Felly, mi aeth 10 aelod o'r staff ar gwrs Asesydd Codi a Chario "hyfforddi'r hyfforddwyr" ac yn sgil hwnnw buont yn cynnal nifer fawr o sesiynau hyfforddi, sydd wedi lleihau nifer y ceisiadau am sesiynau yn ganolog.

### • CYRSIAU HYFFORDDI IECHYD A DIOGELWCH CYFFREDINOL

Yn ystod 2017/18 cafodd y cyrsiau canlynol eu darparu neu eu hwyluso gan y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch.


| Blwyddyn | Nifer y cyrsiau / Sesiynau | Y Staff/Myfyrwyr a fu'n cymryd rhan |
|---|---|---|
| 2017/18 | 39 | 166 |
| 2016/17 | 67 | 299 |
| 2015/16 | 56 | 309[4] |
| 2014 | 100 | 579 |
| 2013 | 85 | 583 |
| 2012 | 106 | 719 |

Roedd yr hyfforddiant a roddwyd i'r staff yn cynnwys:

- Cymorth Cyntaf a Hyfforddiant Diffibriliwr.
- IOSH Cyfarwyddo'n Ddiogel.
- IOSH Rheoli'n Ddiogel
- Sesiynau Cynefino Cyffredinol ar Iechyd a Diogelwch.
- Goruchwyliwr Amddiffyn rhag Ymbelydredd - Pelydr-X a gwaith ffynhonnell agored.

[4] In 2015/16 DSE/Computer User Training was transferred on-line and is no longer offered as a face-to-face training course. e.g. DSE User Training accounted for 137 participants in 2014

- **SESIYNAU CYNEFINO CYFFREDINOL I AELODAU O'R STAFF**

| | |
|---|---|
| **DANGOSIAD PERFFORMIAD** |  |

*Bellach mae Sesiynau Cynefino Cyffredinol y Staff yn ddangosydd perfformiad allweddol o ran Iechyd a Diogelwch Sefydliadol.*

**Targed:** Erbyn 2018/19, bydd o leiaf 90% o'r holl staff newydd, a gaiff eu cyflogi yn ystod y flwyddyn academaidd honno wedi cael sesiynau cynefino iechyd a diogelwch gan y Brifysgol yn ganolog.

Ar hyn o bryd, gwahoddir mwyafrif yr aelodau newydd o'r staff i ddod i'r Diwrnod Cynefino canolog i'r staff, a drefnir gan yr Adnoddau Dynol, lle cânt wybodaeth iechyd a diogelwch sefydliadol.

| **Targed am 2017/18 oedd 86%** | | |
|---|---|---|
| **DANGOSYDD PERFFORMIAD** | **STATWS/ GWERTH** | **NODIADAU** |
| Y canran o'r staff newydd (gwahoddedig) a aeth i sesiwn gynefino Iechyd a Diogelwch ganolog y Brifysgol[5] | 63%<br><br>23% islaw'r targed | **I lawr 16% ar lefel perfformiad 16/17**<br><br>90% yw targed 2018/19 |

***Sylwch**: Ni chaiff sesiynau cynefino iechyd a diogelwch mewnol (ar lefel Ysgol/Adran/Grŵp Ymchwil) eu cofnodi'n ganolog ac felly ni chânt eu defnyddio ar hyn o bryd fel Dangosydd Perfformiad Allweddol sefydliadol.*

- **HYFFORDDIANT I DDEFNYDDWYR CYFRIFIADURON**

| | |
|---|---|
| **DANGOSIAD PERFFORMIAD** |  |

*Defnyddir hyfforddiant i ddefnyddwyr cyfrifiaduron (DSE) bellach fel Dangosydd Perfformiad Allweddol sefydliadol. O dan y Rheoliadau Offer Sgrin Arddangos mae'r hyfforddiant penodol hwnnw'n rheidrwydd.*

**Targed:** 80% o Ddefnyddwyr Cyfrifiaduron erbyn 2018/19 i fod wedi gwneud hyfforddiant ar-lein yn y 5 mlynedd diwethaf.

| **Targed am 2017/18 oedd 67%** | | |
|---|---|---|
| **DANGOSYDD PERFFORMIAD** | **STATWS/ GWERTH** | **NODIADAU** |
| Canran Defnyddwyr Cyfrifiaduron (sgriniau arddangos) sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant ar-lein a'r hunan-asesiad | 65%<br><br>2% y tu ôl i'r targed | **13% yn uwch nag 16/17**<br><br>---<br><br>80% yw targed 2018/19 |

Yn 2017/18 cwblhaodd **412** o aelodau o'r staff yr hyfforddiant ar-lein i Ddefnyddwyr Cyfrifiaduron (sef 65% o Ddefnyddwyr Cyfrifiaduron a amcangyfrifir) Mae'r ffigwr hwn yn gynnydd o 25.5% ar y cyfanswm o 51.8% y llynedd.

Mae'r siart isod yn dangos y % o ddefnyddwyr cyfrifiaduron a gwblhaodd yr hyfforddiant ym mhob Coleg, Ysgol a Gwasanaeth Proffesiynol.

| | |
|---|---|
| **Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes** | 49% |
| Staff CoAHB | 54% |
| Ysgol Fusnes Bangor | 70% |
| Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas | 32% |
| Ysgol Ieithoedd, Llenyddiaethau ac Ieithyddiaeth | 40% |
| Y Gyfraith | 38% |
| Cerddoriaeth a'r Cyfryngau | 63% |
| Cymraeg | 33% |
| **Coleg y Gwyddorau Dynol** | 45% |
| Staff CoHS | 64% |
| Addysg a Datblygiad Dynol | 18% |
| Gwyddorau Iechyd | 28% |
| Y Gwyddorau Meddygol | 89% |
| Seicoleg | 51% |
| Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer | 83% |
| **Coleg Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianneg** | 69% |
| Staff CoESE | 77% |
| BioGyfansoddion | 79% |
| Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig | 53% |
| Y Gwyddorau Naturiol | 72% |
| Gwyddorau'r Eigion | 57% |
| **Gwasanaethau Proffesiynol** | |
| Canolfan Bedwyr | 64% |
| Y Gwasanaethau Masnachol | 84% |
| Y Gwasanaethau Corfforaethol | 89% |

[5] Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys rhai grwpiau o staff maniwal a chontractau tymor byr

| | |
|---|---|
| Y Gwasanaethau Cyllid ac Ymchwil | 80% |
| Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth | 98% |
| Gwasanaeth y Llyfrgell a'r Archifdy | 91% |
| Marchnata, Recriwtio a Chyfathrebu | 79% |
| Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru | 56% |
| Celfyddydau Pontio | 66% |
| Gwasanaethau Eiddo a Champws | 26% |
| Gwasanaethau Myfyrwyr | 91% |
| Undeb y Myfyrwyr | 95% |

Bydd Iechyd a Diogelwch yn parhau i weithio gyda'r Colegau a'r Gwasanaethau Proffesiynol i wella'r cyfraddau cydymffurfio. Bydd Hyfforddiant Aseswyr DSE yn cychwyn yn fuan ar gyfer y Gwasanaethau a'r Ysgolion newydd.

## • CYMWYSEDDAU

Y flwyddyn 2017/18 fydd y flwyddyn sylfaen ar gyfer asesu a hyrwyddo cymhwysedd iechyd a diogelwch yn ffurfiol (hyfforddiant) ar gyfer rolau uwch reolwyr a diogelwch allweddol. Mae i bob swydd ddisgwyliad sylfaenol o Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch sy'n amrywio o hyfforddiant "Lefel Weithrediaeth" ffurfiol i Ddeoniaid a Chyfarwyddwyr, hyfforddiant Tystysgrif ffurfiol ar gyfer Cydlynwyr mewn Colegau a Gwasanaethau risg uchel, a sesiynau gwybodaeth un-i-un ar gyfer Cydlynwyr y Gwasanaethau Proffesiynol risg isel.


Mae'r perfformiad presennol fel a ganlyn:

| Cymwyseddau Iechyd a Diogelwch | |
|---|---|
| DEONIAID A CHYFARWYDDWYR Y GWASANAETHAU PROFFESIYNOL, AELOD GWEITHREDOL | 33% |
| CYDLYNYDD IECHYD A DIOGELWCH | 53% |

Caiff y DPA hwn ei gryfhau o 2018/19 ymlaen gan ddangos perfformiad ar bedair lefel wahanol, sef:


- Y Pwyllgor Gweithredol
- Cymorth Iechyd a Diogelwch Lleol.
- Y Cyngor Iechyd a Diogelwch Canolog.
- Y Deoniaid a'r Cyfarwyddwyr.

## 5. DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU

| DANGOSIAD PERFFORMIAD |  |
|---|---|

Rhaid i bob Coleg, Ysgol a Gwasanaeth Proffesiynol sefydlu trefniadau lleol i dderbyn a chofnodi Ffurflenni Damweiniau a Digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'u gweithgareddau. Fel rhan o'r broses honno, rhaid iddynt anfon copi at Iechyd a Diogelwch a fydd, yn ogystal â'r trefniadau lleol, yn cofnodi'n ganolog ac yn cymryd camau pellach yn ôl yr angen.

### • DAMWEINIAU SY'N ACHOSI ANAFIADAU (CYFANSWM)




Y nifer o ddamweiniau Staff a Myfyrwyr a adroddwyd yn 2017/18 a oedd yn gysylltiedig ag anaf, o ganlyniad i'w gwaith neu astudiaethau'r Brifysgol oedd **61** (58 yn 2016/17). O blith y cyfanswm hwnnw, roedd **46** *(34) o'r damweiniau'n ymwneud â'r Staff a* ***15*** *(24) yn ymwneud â'r Myfyrwyr.*

Yn ychwanegol at adroddiadau anafiadiau-damweiniau'r staff/myfyrwyr, cafwyd **17** yn rhagor *(28)* o Anafiadau-Damweiniau am anafiadau i ymwelwyr a chontractwyr. Mân anafiadau oedd y rheiny i gyd.

### • ANAFIADAU MAWR

Doedd dim "anafiadau mawr" yn ystod y flwyddyn.


### • CYFRADD DAMWEINIAU ANAFIADAU (fesul 1000 mewn Risg)

**Staff**

Roedd cymhareb anafiadau damweiniau'r staff yn 2017/18 yn **22** o ddamweiniau i bob 1,000 o

weithwyr[6], cynnydd ar yr **16.5** damwain i bob 1,000 a adroddwyd yn 2016/17. Y Gyfradd Genedlaethol yn 17/18 oedd **23.64**/ 1000 (*addaswyd ar gyfer CALI*).

Damweiniau a achosodd anafiadau yn y Sector a Phrifysgol Bangor ar gyfartaledd i bob 1000 **o staff**(2010 – 2017/18)





| 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 30 | 27 | 27.4 | 16.4 | 15.2 | 21.3 | 22.4 | 16.5 | 22 |

**Myfyrwyr**

Yn 2017/18, bu **15** *(24 yn 16/17)* o ddamweiniau a achosodd anafiadau i fyfyrwyr o ganlyniad i'w hastudiaethau yn y Brifysgol. Yn dangos cymhareb o **1.5** damwain fesul pob 1,000 o fyfyrwyr[7] sef gostyngiad ar y 2.4 a fu yn 16/17. Y Gyfradd Genedlaethol yn 16/17 oedd 2.7/1000.

Damweiniau a achosodd anafiadau yn y Sector a Phrifysgol Bangor ar gyfartaledd i bob 1000 **O Fyfyrwyr** (2008 – 2017/18)




| 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2.6 | 1.9 | 1 | 2 | 1 | 1.7 | 2.4 | 2.4 | 1.5 |

- **DAMWEINIAU ADRODDADWY (RIDDOR)**

Yn ystod 2017/18 bu **3** o Ddamweiniau a Digwyddiadau yr oedd rhaid adrodd amdanynt i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Roedd a wnelo'r **3** â **Myfyrwyr** yn mynd i'r ysbyty o ganlyniad i'w hanafiadau: codwm ar wyneb anwastad y tu allan i adeilad a berodd ysictod i'r ffêr, codwm ar lethr ar daith maes a arweiniodd at dorri arddwrn a thoriad ar fraich a achoswyd gan sbring matras oedd yn y golwg mewn neuadd ac yr oedd angen ei 'gludo' i'w lle.

Nifer Digwyddiadau RIDDOR i Staff y Sector AU oedd **1.22/1000** yn 2016/17 (sef y ffigurau diwethaf sydd ar gael). Cyfradd Prifysgol Bangor yn 2017/18 oedd **0/1000**; roedd yn 0.5/1000 yn 16/17.

Roedd nifer y digwyddiadau RIDDOR a oedd yn ymwneud â myfyrwyr yn y Brifysgol yn **0.3 /1000** yn 2017/18.

Yn hanesyddol mae cyfraddau RIDDOR y Brifysgol yn amrywio'n fawr fel y gwelwch chi isod:

| Blwyddyn | Staff | Myfyrwyr | Ymwelwyr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2017/18 | 0 | 3 | 0 | **3** |
| 2016/17 | 1 | 1 | 0 | **2** |
| 2015/16 | 4 | 1 | 0 | **5** |
| 2014 | 7 | 1 | 0 | **8** |
| 2013 | 3 | 1 | 1 | **5** |
| 2012 | 0 | 2 | 0 | **2** |
| 2011 | 3 | 0 | 0 | **3** |
| 2010 | 3 | 3 | 1 | **7** |
| 2009 | 10 | 0 | 2 | **12** |
| 2008 | 5 | 1 | 1 | **7** |
| 2007 | 3 | 2 | 0 | **5** |
| 2006 | 3 | 6 | 0 | **9** |

Doedd **dim** Afiechydon Galwedigaethol na Digwyddiadau Peryglus Adroddadwy yn 2017/18.


- **ACHOSION Y DAMWEINIAU (pob damwain)**

Roedd y rhan fwyaf o'r **61** damweiniau a arweiniodd at anafiadau'n ymwneud naill ai â chodi a chario (26 = 43%), rhywun yn cael ei daro gan rywbeth a oedd yn symud/yn syrthio (10 = 16%) neu lithro, baglu neu syrthio (17 = 28%).

[6] Ar y sail bod o 2,084 o aelodau o'r staff yn ystod y flwyddyn (cyfrif pennau)

[7] Wedi ei seilio ar 9,767 o fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn


Roedd a wnelo'r 8 digwyddiad arall ag *arfer gwaith anniogel (1), cyswllt â rhywbeth a oedd yn symud (4), cyswllt â thrydan statig (1) ac eraill (2)*.




- **DAMWEINIAU A ACHOSODD I STAFF GOLLI AMSER O'R GWAITH**

Dim ond **1** achos oedd o'r staff yn colli amser oherwydd digwyddiad yn 2017/18. Mater meddygol hanesyddol oedd yn gyfrifol am y digwyddiad colli amser ac ystyriwyd nad oedd yn adroddadwy o dan RIDDOR.


Cyfradd achosion colli amser y Brifysgol yw **0.5** o ddiwrnodau i bob 1000 o weithwyr, gostyngiad o **2.42**/ 1000 yn 16/17.




- **DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU ERAILL, BU BRON I DDAMWAIN DDIGWYDD**

Derbyniwyd **134** o Adroddiadau Digwyddiadau (154 yn 16/17) pellach (staff, myfyrwyr, ymwelwyr a chontractwyr), **nad oeddent** yn cynnwys anaf, yn 2017/18. Mae'r rhain yn cynnwys **11** Adroddiad am salwch a oedd angen cymorth cyntaf neu alw am ambiwlans.

Mae'r Adroddiadau yn cael eu grwpio fel:





Bu gostyngiad o **14.7%** yn y Damweiniau a fu bron â digwydd o'i gymharu â ffigurau 2016/17 (*15 adroddiad*). Cynyddodd nifer yr adroddiadau o Arfer Anniogel 9% (*3 achos*).

Yn ogystal, derbyniwyd **132** o ddigwyddiadau yn gysylltiedig â chwaraeon (gweithgareddau nad ydynt yn rhai academaidd), yn bennaf ar gyfer anafiadau sy'n anochel yn digwydd wrth chwarae rhai chwaraeon.

Cafwyd **13** o adroddiadau hefyd ynglŷn â myfyrwyr a oedd yn cynnwys digwyddiadau'r 'bywyd beunyddiol' nad ydynt yn cael eu hystyried yn weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol.


- **DIGWYDDIADAU DRAMOR A THEITHIO DRAMOR**

Yn ystod 2017/18 bu **1,797** siwrneiau gan staff/myfyrwyr ar deithiau tramor a gofnodwyd ar y gronfa ddata yswiriant ganolog. Dyna gynnydd o 19% ar y 1,513 a gofnodwyd yn 16/17 a chynnydd o 26% ar y 1,424 a adroddwyd yn 2015/16.




Gwnaed 25 o 'hawliadau' am deithiau tramor yn ystod y flwyddyn:

- Roedd 3 yn ymwneud â theithwyr yn canslo eu taith cyn ymadael, a'r person yn cyflwyno tystiolaeth gan y meddyg teulu o'r salwch a wnaeth eu hatal rhag teithio.
- Cafwyd 10 hawliad am faterion meddygol wrth deithio.
- Cafwyd 1 hawliad am anaf o ganlyniad i ddigwyddiad treisgar a ddigwyddodd dramor.
- Cafodd 11 arall eu 'hawlio'n ôl' (h.y. ar ôl i'r teithwyr ddychwelyd) am y treuliau a achoswyd dramor.




Dangosodd adolygiad sampl o bryniannau teithio tramor yn ôl yr yswiriant teithio bod y rhan fwyaf o'r staff wedi trefnu yswiriant teithio. Fodd bynnag, roedd yn anodd, mewn rhai achosion, i ganfod pa deithiau a archebwyd.

Canfu'r adolygiad sampl fod bron pob aelod o'r staff a'r myfyrwyr wedi llanw'r holl 'feysydd' sy'n nodi eu bod wedi asesu'r cyngor Iechyd Teithio, wedi cael y pigiadau priodol a lle bo'n briodol roedd y teithiau i ranbarthau cyfyngedig hysbys wedi'u hasesu a'u cymeradwyo.

*Dylid nodi nad oes modd cysylltu prynu teithiau tramor sy'n ymwneud â'r Brifysgol a chadarnhau yswiriant teithio busnes y Brifysgol o hyd.*


- **DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU SY'N YMWNEUD Â CHERBYDAU**

Yn 2017/18, roedd 10 hawliad a oedd yn ymwneud â damweiniau cerbydau modur; roedd 9 o'r rheiny ar gyfer cerbydau a huriwyd ac a gafodd eu difrodi tra roeddent ar log i aelodau o'r staff ar fusnes y Brifysgol.

| Cyfradd Digwyddiadau Cerbydau[8] | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **2015/ 2016** | | **2016/17** | | **2017/18** | |
| Cyf. Dydd | Cyf. Milltir | Cyf. Dydd | Cyf. Milltir | Cyf. Dydd | Cyf. Milltir |
| 2,871 | 207,029 | 1,686 | 175,701 | 1,810 | 255,090 |
| Dig. / Dydd | Dig. / Milltir | Dig. / Dydd | Dig. / Milltir | Dig. / Dydd | Dig. / Milltir |
| 1.04/ 1000 dydd | 1.4/ 100k milltir | 3.6/ 1000 dydd | 3.4/ 100k milltir | 4.4/ 1000 dydd | 3.18/ 100k milltir |
| CYFANSWM ANAFIADAU | | CYFANSWM ANAFIADAU | | CYFANSWM ANAFIADAU | |
| 2 (Un Digwyddiad) | | 0 | | 0 | |

Mae Undeb y Myfyrwyr (UM) yn endid cyfreithiol ar wahân. Mae ganddo yswirwyr gwahanol ac felly mae'n cadw data UM ar wahân. Mae UM yn 'berchen' ar 7 o gerbydau: 4 bws mini, 2 MPV ac un fan. Ni adroddwyd am unrhyw anafiadau mewn damweiniau ffyrdd ac ni wnaed unrhyw hawliadau yswiriant. Cyfanswm y pellter a deithiodd y cerbydau yn 2017/18 oedd **47,923** o filltiroedd, cynnydd o 20% ar 2016/17 *(39,856)*.

- **MONITRO SAFLEOEDD CONTRACTWYR**


| DANGOSIAD PERFFORMIAD |  |
|---|---|

Yn 2017/18 dyblodd nifer yr Arolygiadau Iechyd a Diogelwch mewnol ar safleoedd adeiladu hyd **258**. Dyma gynnydd sylweddol ar arolygiadau 16/17 *(129)* a 15/16 *(146)*. Dangosodd canfyddiadau'r arolygiadau hynny welliant amlwg yn y safonau gweithredu a arsylwyd ar y safle.

O'r 258 o arolygiadau mewnol a gynhaliwyd, roedd 65.5% o arferion gwaith y Contractwyr, roedd 15.5%

[8] Defnyddio cyfanswm digwyddiadau fesul diwrnod llogi a milltiroedd ar gyfer un darparwr cerbyd (llogi), yn unig. 8 digwyddiad yswiriant


o staff Cynnal a Chadw'r Brifysgol, roedd 15% o Staff y Tiroedd, a'r gweddill ar gyfer gweithrediadau Diogelwch a Neuaddau'r campws. Roedd y 3% a ystyriwyd yn 'dor-amodau difrifol' oll yn gysylltiedig â Chontractwyr.




## 6. ABSENOLDEB SALWCH YMYSG Y STAFF


| | |
|---|---|
| **DANGOSIAD PERFFORMIAD** |  |

Yn 2017/18, collwyd 8,542 o ddiwrnodau gwaith o ganlyniad i absenoldeb salwch a adroddwyd. Mae hyn yn gyfystyr â chyfradd absenoldeb salwch ymysg y staff o oddeutu **5.4** diwrnod am bob gweithiwr cyfwerth amser-llawn[9] (5.38 diwrnod yn 2016/17).




Y cyfartaledd yn y sector Addysg Uwch yn genedlaethol yn 2017/18 oedd **6.0 o ddiwrnodau**[10]. Cyfradd gyfartalog genedlaethol absenoldeb oherwydd salwch yn y Deyrnas Unedig yn 2017, yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, oedd **4.1** o ddiwrnodau, yr isaf ar gofnod. Cofnododd cymharydd lleol, Cyngor Gwynedd, **8.72** o ddiwrnodau yn 2017/18 (Ebrill-Mawrth).

Mae Cyfradd Absenoldeb Salwch Prifysgol Bangor yn 2017/18 sef **5.4** diwrnod yn cyfateb i golli **2.48%** o amser gwaith[11] oherwydd absenoldeb salwch. Y gyfradd yn 2016/17 oedd **2.47%**.




Yn 2017/18 cadarnhawyd 81% (6,953 o ddiwrnodau gwaith, addaswyd ar gyfer CALl) o holl absenoldebau salwch gan dystysgrif meddyg, ac roedd y gweddill sef 19% (1,589 o ddiwrnodau, addaswyd ar gyfer CALl) yn rhai hunan-ardystio.

Roedd absenoldebau tymor hir, mwy nag 20 diwrnod, yn gyfrifol am **63%** (5,383 o ddiwrnodau o absenoldeb, addaswyd ar gyfer CALl) o'r holl ddiwrnodau o absenoldeb a adroddwyd yn 2017/18, ac yn dangos gostyngiad o 4.5% ar 2016/17.

| **Canran yr absenoldeb oherwydd salwch sy'n hirdymor** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 13/14 | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 |
| Bangor | 56%* | 63%* | 61.9% | 65.6% | 63% |
| Sector | 49.6% | 49.6% | 52.4% | 53.3% | 52.2% |

* *hyd at 2015/16 defnyddiodd Prifysgol Bangor flynyddoedd calendr ac felly ar gyfer 2013/14 = 2013 a 2014/15 = 2014.*

Cyfanswm y staff a adroddodd am absenoldeb oherwydd salwch yn 2017/18 oedd **615** (*niferoedd*),

[9] Seiliedig ar 1580.54 CALl ar gyfartaledd yn 2017/18
[10] Y cyfartaledd mewn adroddiad ar Absenoldeb Salwch mewn Addysg Uwch 2017/18 gan UCEA; yn seiliedig ar 102 o sefydliadau AU

[11] Yn seiliedig ar flwyddyn waith o 260.715 diwrnod gwaith ar gyfartaledd

mae hyn yn cyfateb i oddeutu **29.97%** o'r staff; yn 2016/17 y gyfradd oedd **30.8%.**

- **TUEDDIADAU MEWN ABSENOLDEB SALWCH**

Mae'r tabl canlynol yn rhannu cyfanswm y diwrnodau gwaith a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch yn absenoldebau tymor byr, tymor canolig a thymor hir. Diffinnir tymor byr (TB) fel absenoldeb 1-7 diwrnod, tymor canolig (TC) 8-20 diwrnod a thymor hir (TH) mwy nag 20 diwrnod o absenoldeb.

| CATEGORI | 15/16 | 16/17 | 17/18 |
|---|---|---|---|
| **Staff CALl** (y cyfartaledd am flwyddyn) | 1790 | 1692 | 1580 |
| Cyfanswm y Diwrnodau Gwaith a Gollwyd | 8984 | 9106 | 8542 |
| Cyfanswm y diwrnodau TH a gollwyd | 5561 | 5974 | 5383 |
| Cyfanswm y diwrnodau TC a gollwyd | 1556 | 1240 | 1546 |
| Cyfanswm y diwrnodau TB a gollwyd | 1867 | 1892 | 1613 |
| Achosion TH | 110 | 102 | 101 |
| Nifer y staff TH | 98 | 98 | 98 |
| Achosion TC | 186 | 135 | 165 |
| Nifer y staff TC | 157 | 132 | 142 |
| Achosion TB | 1045 | 1027 | 886 |
| Cyfanswm y staff TB | 553 | 776 | 484 |
| % **y diwrnodau** TH a gollwyd | 61.90% | 65.60% | 63.01% |
| % y diwrnodau TC a gollwyd | 17.32% | 13.62% | 18.11% |
| % y diwrnodau TB a gollwyd | 20.78% | 20.78% | 18.88% |
| Diwrnodau TH fesul CALl | 3.11 | 3.53 | 3.40 |
| Diwrnodau TC fesul CALl | 0.87 | 0.73 | 0.98 |
| Diwrnodau TB fesul CALl | 1.04 | 1.12 | 1.02 |

Mae'r tablau canlynol yn dangos diwrnodau cyfartalog oherwydd salwch fesul CALl yn ôl cymarydd absenoldeb i gyfraddau'r sector AU dros y 4 blynedd ddiwethaf yn ôl grwpiau staff a grwpiau oedran.

| **Grŵp Staff / Blwyddyn** | Yr holl staff | Academaidd | Proffesiynol a Thechnegol | Clercyddol | Gwaith Llaw[12] |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg Uwch 2017/18 | 6.0 | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. |
| 2017/18 PB | 5.4 | 2.7 | 4.9 | 9.5 | 9.5 |
| 2016/17 AU | 5.8 | 2.8 | 6.2 | 8.8 | 15.5 |
| 2016/17 PB | 5.4 | 2.2 | 5.3 | 8.4 | 10.9 |
| 2015/16 AU | 6.0 | 2.9 | 6.4 | 8.3 | 16.5 |
| 2015/16 PB | 5.0 | 2.0 | 6.8 | 7.9 | 6.6 |
| 2014/15 AU | 5.7 | 2.7 | 6.1 | 8.4 | 17.5 |
| 2014/15 PB | 5.1 | 2.2 | 5.4 | 8.0 | 10.4 |
| 2013/14 AU | 5.5 | 2.6 | 6.3 | 7.9 | 11.1 |
| 2013/14 PB | 4.6 | 2.8 | 3.5 | 7.7 | 8.2 |

| **Grŵp Oedran / Blwyddyn** | <25 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-65 | 65+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2017/18 AU | 4.8 | 4.1 | 5.0 | 6.7 | 9.2 | 10.0 |
| 2017/18 PB | 0.8 | 4.1 | 4.2 | 5.7 | 7.8 | 16.1 |
| 2016/17 AU | 4.4 | 3.9 | 4.8 | 6.8 | 9.3 | 9.7 |
| 2016/17 PB | 2.0 | 2.3 | 4.5 | 5.8 | 9.5 | 8.8 |
| 2015/16 AU | 4.6 | 3.7 | 4.8 | 6.8 | 9.1 | 10.3 |
| 2015/16 PB | 0.7 | 3.1 | 3.7 | 6.6 | 7.6 | 7.9 |
| 2014/15 AU | 4.3 | 3.5 | 4.7 | 6.3 | 8.9 | 10.3 |
| 2014/15 PB | 1.2 | 4.1 | 3.6 | 5.3 | 8.8 | 8.0 |

- **CYFNODAU O ABSENOLDEB TYMOR HIR**

Oherwydd bod cyfnodau o absenoldeb yn gallu dechrau unrhyw adeg yn y flwyddyn academaidd, mae'r tabl canlynol yn dangos cyfanswm cyfnodau absenoldeb yr holl achosion o salwch tymor hir a ddaeth i ben yn 2017/18, o'i gymharu â 2016/17 a 2015/16.

Mi welwch fod dros 50% o'r holl achosion tymor hir yn dod i ben o fewn cyfnod o 2 fis.


[12] Mae Grŵp Staff Gwaith Llaw'n ymwneud â Dosbarthiadau Swyddi nid Graddau, er enghraifft mae rhai Rheolwyr Cyfleusterau Gradd 6 a 7 wedi'u cynnwys yn y grŵp hwn

| Absenoldebau hirach nag 20 diwrnod a ddaeth i ben yn 2017/18 (cymharydd 2016/17 a 2015/16) | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfnod yr absenoldeb mewn misoedd | Cyfnod yr absenoldeb mewn misoedd | Cyfnod yr absenoldeb mewn misoedd | Number of Instances 2017/18 |
| ≤2 | 47 | 47 | 43 |
| ≤3 | 19 | 16 | 18 |
| ≤4 | 12 | 7 | 7 |
| ≤5 | 6 | 7 | 7 |
| ≤6 | 3 | 6 | 3 |
| ≤7 | 0 | 1 | 5 |
| ≤8 | 0 | 2 | 0 |
| ≤9 | 2 | 1 | 0 |
| ≤10 | 0 | 1 | 0 |
| ≤11 | 1 | 1 | 1 |
| ≤12 | 0 | 0 | 0 |


- **ACHOSION ABSENOLDEB SALWCH**

Gan ddefnyddio data gyda thystysgrif feddygol yn unig: unwaith eto gwelwn mai salwch seicolegol ac achosion cyhyrysgerbydol (gan gynnwys poenau cefn, cymalau a thorri esgyrn) sy'n gyfrifol am y ganran fwyaf o absenoldebau.


Dyma ddosbarthiad **y diwrnodau a gollwyd** ar gyfer y prif gategorïau achosion:




Nid oes Cymariaethau Cenedlaethol ar gyfer y grwpiau uchod o achosion gan eu bod yn cyfeirio at absenoldebau a ardystiwyd gan feddyg yn unig, ac nid ydynt yn cynnwys achosion am absenoldeb hunan-ddatgan (hunan-ardystiedig).




Mae achosion absenoldebau hir dymor (niferoedd / digwyddiadau) fel a ganlyn:




- **Y COLEGAU A'R GWASANAETHAU PROFFESIYNOL**

Mae'r tabl canlynol yn nodi Swm Diwrnodau Cyfartalog fesul CALl pob Coleg a Gwasanaeth Proffesiynol[13], o'i gymharu â chyfartaledd y Brifysgol.

[13] Cymerwyd ffigurau CALl ddechrau mis Medi ar ôl y newidiadau i'r Gwasanaethau Proffesiynol/Colegau

| Y BRIFYSGOL/ COLEGAU / GWASANAETHAU PROFFESIYNOL | Y GYFRADD | Y GYFRADD heblaw Tymor Hir |
|---|---|---|
| **Y Brifysgol** | **5.4** | **2.00** |
| Y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes | **4.23** | **0.49** |
| Gwyddorau'r Amgylchedd a Pheirianneg | **1.59** | **0.87** |
| Y Gwyddorau Dynol | **3.88** | **0.94** |
| Y Gwasanaethau Masnachol | **3.36** | **1.79** |
| Y Gwasanaethau Corfforaethol | **9.48** | **3.2** |
| Gwasanaethau Cyllid ac Ymchwil | **8.88** | **4.21** |
| Marchnata, Recriwtio a Chyfathrebu | **5.55** | **3.5** |
| Gwasanaethau Myfyrwyr | **7.50** | **4.21** |
| Canolfan Bedwyr | **4.62** | **4.21** |
| Gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth | **5.85** | **2.53** |
| Gwasanaeth y Llyfrgell a'r Archifdy | **9.68** | **5.25** |
| Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru | **3.75** | **2.91** |
| Celfyddydau Pontio | **4.20** | **2.53** |
| Gwasanaethau Eiddo a Champws | **13.45** | **3.69** |
| Undeb y Myfyrwyr | **17.64** | **3.42** |

***Sylwer:*** *Gofalwch wrth ddehongli prif gyfradd y Diwrnodau/CALl adrannau llai o faint oherwydd gall absenoldebau hirdymor ychydig iawn o staff effeithio ar yr ystadegau. Er mwyn ein helpu ni ddeall, mae ail golofn wedi'i hychwanegu sy'n hepgor yr absenoldebau hirdymor.*

## • CADW GOLWG AR IECHYD


Cafodd oddeutu 120 aelod o'r staff arolygon iechyd i gadarnhau nad oedd eu gwaith yn niweidio eu hiechyd yn 2017/18.

Caiff nifer o weithwyr llaw eu harolygu os ydynt yn defnyddio offer sy'n dirgrynu ac sy'n agored i lefelau sŵn uchel iawn yn rheolaidd, ac i rai gwyddonwyr ymchwil, cemegwyr a staff technegol, gweithwyr sydd ar shifftiau, gyrwyr sydd ar gontractau ac arbenigwyr trin anifeiliaid.

Doedd dim canlyniadau a oedd yn niweidiol i iechyd yn 2017/18.

## 7. LARYMAU TÂN YN CANU


**DANGOSIAD PERFFORMIAD**



Mae gan y Brifysgol dros gant o adeiladau ar nifer o safleoedd, a'r mwyafrif wedi'u diogelu gan systemau canfod tân awtomatig a larymau tân. Mae oddeutu 8,000 o synwyryddion mwg/gwres a llawer o gannoedd o bwyntiau galwadau llaw.


Yn ystod 2017/18 cafwyd **99** o achosion o larymau tân yn seinio yn adeiladau'r Brifysgol, gostyngiad o **18%** ar y 121 yn 2016/17.

Cyfanswm Larymau Tân yn Canu ym Mhrifysgol Bangor




Daeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru allan **21** o weithiau Mae hyn yn ostyngiad sylweddol ar y 34 yn 16/17. Aeth **19** o'r rhain *(29 yn 16/17)* i'r Neuaddau Preswyl rhwng 8yn a 8yb.

Gellir rhannu’r cyfanswm hwn (99) i ddynodi'r nifer o weithiau y canodd y larymau yn yr adeiladau Preswyl a'r adeiladau Academaidd/Gweinyddol sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o ystad y Brifysgol.




Bu gostyngiad yn y nifer o weithiau y seiniwyd y larwm tân mewn adeiladau Academaidd a Gweinyddol i **40** yn 2017/18 o 56 (16/17). Bu gostyngiad bach yn y nifer o weithiau y seiniwyd y larwm tân yn y neuaddau preswyl i 59 (15/16) o 65 (16/17).

Cyfradd achosion o ganu Larymau Tân/1000 o Ganfodyddion

| Ystâd | 17/18 | Tuedd |
|---|---|---|
| Neuaddau Preswyl[14] | 12.5/1000 | I lawr |
| Academaidd a Gweinyddol[15] | 12.3/1000 | I lawr |

Larymau tân yn canu fesul 1000 o Ystafelloedd Gwely [16]




| | 08 | 09 | 10/11 | 11/12 | 12/13 | 13/14 | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PU | 75 | 46 | 35 | 32 | 30 | 35 | 33 | 25 | 22 | 20 |
| Sector | 84 | 87 | 95 | 96 | Dim data ar gael | | | | | 72 |

- **TANAU**

Bu **un** tân (fel y diffinnir hynny) yn 2017/18. Roedd digwyddiad y tu ôl i siop y Neuaddau Preswyl lle rhoddwyd sbwriel ar dân. Daeth y Gwasanaeth Tân a'r Heddlu gan amau llosgi bwriadol.

Bu hefyd nifer o ddigwyddiadau a allai fod wedi achosi tân. Ystyr y gallasai fod tân yw bod mwg, heb fflamau, a allai neu na allai achosi difrod'. Roedd y rhan fwyaf o'r rheiny'n ymwneud â choginio yn y Neuaddau Preswyl.

## 8. HAWLIADAU SIFIL (SY'N YMWNEUD AG IECHYD A DIOGELWCH)

Yn 2017/18 roedd **un** Hawliad Atebolrwydd Cyhoeddus am anaf honedig a ddigwyddodd ar diroedd y Brifysgol.

Ni wnaed dim hawliadau atebolrwydd cyflogwyr.

## 9. YSTADEGAU'R WEFAN

Yn 2017/18 roedd **21,069** o dudalennau unigol ar yr wefan Iechyd a Diogelwch, ac edrychwyd ar **30,315** o dudalennau i gyd. O'r rheiny, y pum tudalen mwyaf poblogaidd yr ymwelwyd â nhw oedd:

- Tudalen Gartref Iechyd a Diogelwch.
- Lles.
- Cyswllt A-Y.
- Ffurflenni Hunan-asesu Offer Sgriniau Arddangos.
- Asesiad Risg.

**Diwedd.**

[14] Yn seiliedig ar 4736 o ddarganfodyddion mewn Neuaddau
[15] Yn seiliedig ar 3264 o ddarganfodyddion mewn Adeiladau Academaidd
[16] Wedi'i seilio ar 2960 o ystafelloedd gwely/astudio. Nid oedd unrhyw ddata Sector ar gael rhwng 2012 - 2016